Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

19 Tachwedd 2025

At:
Benaethiaid sefydliadau addysg uwch
Benaethiaid sefydliadau addysg bellach
Arweinwyr prentisiaethau
Cyfarwyddwyr addysg

Annwyl gydweithwyr,

**Rhagdybiaethau cyllid ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27**[1]

Mae'r ddogfen hon yn nodi, yn gyffredinol, y rhagdybiaethau cyllid sy'n sail i'r ffordd y bwriedir dosbarthu cyllideb Medr.

Mae'r cynigion hyn yn seiliedig ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 3 Tachwedd 2025 a'r Llythyr Cyllid Dangosol dilynol a ddaeth i law ar 7 Tachwedd 2025 (gweler atodiad A).

Disgwylir cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2026. Mae Medr yn disgwyl cyhoeddi ein dyraniadau cyllid terfynol ar lefel darparwyr cyn diwedd mis Mawrth 2026.

Cyflwynir y cynigion cyllido yn y ddogfen hon yn amodol ar y cafeat y gellir addasu'r dyraniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 (1 Awst 2026 tan 31 Gorffennaf 2027) os bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio llinell Medr yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 (1 Ebrill 2026 tan 31 Mawrth 2027).

Gwnaeth Bwrdd Medr ystyried y gyllideb ddrafft yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd. Pan fydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru wedi'i phennu, bydd Bwrdd Medr yn cymeradwyo unrhyw newidiadau gofynnol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ac yna bydd Medr yn ffurfioli ac yn cyhoeddi ein dyraniadau terfynol cyn diwedd mis Mawrth 2026.

Bydd cadarnhad o'r dyraniadau cyllid terfynol ar lefel sefydliadau/darparwyr yn amodol ar argaeledd data sydd wedi bod yn destun prosesau sicrhau ansawdd a dilysu a ddefnyddir i lywio'r methodolegau cyllido y cytunir arnynt.

Er gwybodaeth, mae copi o gyhoeddiad Medr ynghylch dyraniadau terfynol blwyddyn academaidd 2025/26 ar lefel sefydliadau i'w gweld drwy ddilyn y ddolen ganlynol: Medr/2025/06: Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 – Medr

[1] Yn y ddogfen hon, dynodir blynyddoedd ariannol gan ddefnyddio '-', a blynyddoedd academaidd gan ddefnyddio '/', e.e. 2026-27 yw'r flwyddyn ariannol a 2026/27 yw'r flwyddyn academaidd. Fesul blwyddyn ariannol y caiff Medr ei ddyraniad cyllideb gan Lywodraeth Cymru, ond ar gyfer blwyddyn academaidd y bydd yn dyrannu cyllid i ddarparwyr yn bennaf. Bydd y flwyddyn ariannol yn rhedeg o fis Ebrill tan fis Mawrth, a bydd y flwyddyn academaidd yn rhedeg o fis Awst tan fis Gorffennaf.



2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

www.medr.cymru

**Y setliad**

Caiff manylion setliad drafft Medr ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 eu cyflwyno yn Nhabl 1. Mae ffigurau cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhychwantu blwyddyn ariannol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth.

| | |
|---|---|
| Addysg drydyddol – cyffredinol | £842,037,000 |
| Eitemau wedi'u clustnodi: | |
| prentisiaethau iau 14-16 | £1,000,000 |
| cyflogadwyedd a mentergarwch | £360,000 |
| | |
| Diwylliant – darpariaeth conservatoires cerddoriaeth a drama seiliedig ar berfformio | £1,970,000 |
| | |
| Prentisiaethau | £145,655,000 |
| | |
| **Cyllideb refeniw net** | **£991,022,000** |
| | |
| Adnoddau nad ydynt yn arian parod (dadbrisiant) | £437,000 |
| **Cyllideb adnoddau** | **£991,459,000** |
| | |
| Cyfalaf addysg uwch | £10,000,000 |
| Cyfalaf digidol addysg bellach | £3,000,000 |
| Cyfalaf gweithredu Medr | £500,000 |
| **Cyllideb gyfalaf** | **£13,500,000** |
| | |
| **Cyfanswm y gyllideb adnoddau a chyfalaf:** | **£1,004,959,000** |
| Addasiadau Cymorth Grant: | |
| Llai adnoddau nad ydynt yn arian parod (dadbrisiant) | (£437,000) |
| | |
| **Cyfanswm Cymorth Grant (arian parod)** | **£1,004,522,000** |

**Dyraniad dangosol cyllideb Medr**

Wrth ddyrannu cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27, mae dyraniadau Medr i ddarparwyr addysg drydyddol ac ymchwil yn bennaf ar sail blynyddoedd academaidd. Felly, rhaid i gyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 ystyried yn gyntaf y gofyniad cyllideb parod hysbys er mwyn cyflawni'r hyn sy'n weddill o'r ymrwymiadau cyllido ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 a osodwyd ar Medr. Mae hyn yn cwmpasu'r ymrwymiad o fis Ebrill tan fis Gorffennaf 2026.

Yn yr un modd, wrth gytuno ar ddyraniadau blwyddyn academaidd 2026/27, gosodir ymrwymiad ar gyllideb blwyddyn ariannol 2027-28, nad yw Llywodraeth Cymru wedi'i phennu eto.

Ni chaiff costau gweithredu Medr eu nodi ar wahân yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Cyn i ddyraniadau'r flwyddyn academaidd gael eu pennu, caiff costau gweithredu rhagolygol Medr eu didynnu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo nifer o linellau cyllido i gefnogi gweithgarwch penodol yn uniongyrchol. Yn 2026-27, bydd hyn mewn perthynas â darpariaeth prentisiaethau (£145,655,000), darpariaeth prentisiaethau iau (£1,000,000), darpariaeth cyflogadwyedd a mentergarwch (£360,000) a darpariaeth i gefnogi gweithgarwch perfformiadol conservatoires mewn cerddoriaeth a drama cadwrfa gelfyddydol (£1,970,000).

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi awgrymiadau penodol ynghylch dyrannu'r gyllideb, sydd wedi'u cynnwys yn y naratif sy'n ategu llythyr cyllid dangosol Medr ac wedi'u rhestru yn y tabl isod:

| | £m |
|---|---|
| Help i dalu costau cynyddol ADY mewn addysg bellach | 4.100 |
| Parhau i sicrhau cydraddoldeb rhwng cyflogau mewn colegau addysg bellach a dosbarthiadau chwech awdurdodau lleol | 14.119 |
| Cynnydd yn y Gronfa Ariannol wrth Gefn mewn addysg bellach | 0.400 |
| Cyfrifoldebau Medr i gyllido arolygiadau addysg a hyfforddiant ôl-16 Estyn | 2.053 |
| Cymorth i brifysgolion er mwyn talu costau lleoliadau Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) | 2.500 |

**Dyraniad dangosol cyllideb y flwyddyn ariannol**

Mae cyllideb ddrafft ddangosol Medr yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am rwymedigaethau llinellau'r gyllideb. Mae'n cynnwys yr holl gyllid rydym yn disgwyl ei gael gan Lywodraeth Cymru fel y'i cyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft.

| | £ miliwn |
|---|---|
| Gofyniad arian parod i gyflawni ymrwymiadau dyraniadau craidd 2025/26 | 294.648 |
| Cyllideb weithredu | 16.394 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi: Prentisiaethau | 145.655 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi: Prentisiaethau iau | 1.000 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi: Cyflogadwyedd a mentergarwch | 0.360 |
| Cyllideb wedi'i chlustnodi: Darpariaeth conservatoires cerddoriaeth a drama seiliedig ar berfformio[2] | 1.970 |
| Cyllidebau craidd | 496.585 |
| Cyllidebau wedi'u targedu | 34.410 |
| Cyllidebau cyfalaf | 13.500 |
| **Cyfanswm** | 1,004.522 |

[2] Derbyniwyd cyllid ar gyfer darpariaeth conservatoires cerddoriaeth a drama sy'n seiliedig ar berfformio am y tro cyntaf fel cyllideb yn ystod y flwyddyn yn 2025/26.

**Trosi cyllideb blwyddyn ariannol yn ddyraniad blwyddyn academaidd**

Er mwyn pennu dyraniadau blwyddyn academaidd, mae dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei drosi'n flwyddyn academaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwneir hyn gan ddefnyddio cyfran o gyllideb ddrafft y flwyddyn ariannol gyfredol a chyfran gydbwysol o gyllideb y flwyddyn ariannol nesaf. Gall hyn amrywio yn ôl sector.

| | 2025/26 gan gynnwys unrhyw ddyraniadau yn ystod y flwyddyn £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|
| Wedi'i glustnodi: contract prentisiaethau | **134.520** | **134.520** |
| Wedi'i glustnodi: llinellau prentisiaethau wedi'u targedu yn y gyllideb | **11.135** | **11.135** |
| Wedi'i glustnodi: prentisiaethau iau | **0.600** | **1.000** |
| Wedi'i glustnodi: cyflogadwyedd a mentergarwch | **0.360** | **0.360** |
| Wedi'i glustnodi: darpariaeth conservatoires cerddoriaeth a drama seiliedig ar berfformio | **1.970** | **1.970** |
| Craidd: dosbarthiadau chwech awdurdodau lleol | **119.311** | **120.578** |
| Craidd: Dysgu Cymunedol i Oedolion awdurdodau lleol | **6.479** | **6.479** |
| Craidd: addysg bellach prif ffrwd | **434.894** | **462.288** |
| Craidd: cymorth dysgu ychwanegol addysg bellach | **16.781** | **20.971** |
| Craidd: Cronfa Ariannol wrth Gefn addysg bellach | **6.880** | **7.280** |
| Craidd: ymchwil ac arloesi addysg uwch[3] | **97.121** | **97.121** |
| Craidd: cyllid addysg uwch[4] | **70.194** | **74.792** |
| Craidd: gradd-brentisiaethau | **9.411** | **9.411** |
| Llinellau yn y gyllideb wedi'u targedu[5] | **45.827** | **45.837** |
| Cronfa Datblygu Strategol | **4.750** | **4.750** |
| Estyn | | **2.053** |
| Cyfalaf: addysg uwch | **10.000** | **10.000** |
| Cyfalaf: digidol addysg bellach | **3.000** | **3.000** |
| **Cyfanswm** | **973.23** | **1013.55** |

Mae'r cynigion:

- Yn dilyn awgrymiadau clir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnal cydraddoldeb rhwng cyflogau athrawon a darlithwyr addysg bellach.
- Yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Medr o ran dyrannu'r holl ddyraniadau craidd yn unol â methodolegau cyllido a gymeradwywyd yn flaenorol.

---

[3] Mae hyn yn cynnwys ymchwil o ansawdd, ymchwil ôl-raddedig a Chronfa Arloesi Ymchwil Cymru
[4] Mae hyn yn cynnwys dyraniadau premiymau, seiliedig ar gredydau a fesul pen amser llawn a rhan-amser
[5] Mae'r llinellau hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer mynediad a llesiant, ymchwil ac arloesi, myfyrwyr/dysgwyr a gweithlu, a data a thechnoleg

- Yn gosod gofyniad arian parod o £365.828 miliwn ar gyllideb blwyddyn ariannol 2027-28 wrth drosi cyllideb blwyddyn ariannol 2026-27 yn ddyraniad ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27.

Yn gywir,

**James Owen**
Prif Weithredwr

Professor Dame Julie Lydon
Chair, Commission for Tertiary Education and Research
Capital Quarter No2
Tyndall Street
Butetown
Cardiff
CF10 4BZ
julie.lydon@medr.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

07 November 2025

Dear Dame Julie,

**Welsh Government's budgeted support for Medr, the Commission for Tertiary Education and Research: 2026-2027**

Following the publication of the Welsh Government Draft Budget, we are writing to set out the indicative budget for Medr for the 2026-27 financial year.

The funding set out in this letter is intended to assist the Medr board in planning and is subject to approval of the Welsh Government Final Budget by the Senedd. A final funding letter will be issued by Welsh Ministers upon confirmation of the Final Budget, expected in January 2026.

A total resource and capital budget of **£1004.522m** for the 2026-27 financial year has been identified for Medr, as set out in Annex 1, including ringfenced areas. This is an increase of £25.329m from the revised baseline for 2025-26.

As set out in evidence to the CYPE committee, ministers will expect Medr to utilise the additional funding for the following:

- Continuing pay parity in further education colleges and school sixth forms.
- Addressing growing costs of additional learning needs (ALN) support in further education colleges (£4.1m).
- Support for universities with the costs of Initial Teacher Education (ITE) placements (£2.5m).
- An increase to the Financial Contingency Fund (FCF) in further education (£0.4m).
- Further expansion of junior apprenticeships (£0.4m).
- Assumption of Medr's responsibilities to fund Estyn for post-16 education and training inspections under the Tertiary Education and Research Act 2022 (£2.053m).
- Additional funding for delivery of the apprenticeships programme (£2.378m).

We anticipate further funding will be allocated to Medr for the costs of additional medical places, Higher Education Research Capital funding. Details of this funding will be confirmed with your team as soon as possible, and may be remitted within the financial year, subject to ministerial approval.

We look forward to our continued working with you and the Medr senior team.

Yours sincerely

Claire Rowlands

Deputy Director, Tertiary Education – Strategy & Funding

**Annex 1**

The indicative resource and capital budget and grant-in-aid settlement are set out in the following table:

| Budget area | Net resource budget |
|---|---|
| Tertiary education - general | £842,037,000 |
| Ringfenced items: | |
| 14-16 Junior Apprenticeships | £1,000,000 |
| Employability and enterprise | £360,000 |
| | |
| Culture - Performance-based music and drama conservatoire provision | £1,970,000 |
| | |
| Apprenticeships | £145,655,000 |
| | |
| **Net revenue budget:** | **£991,022,000** |
| | |
| Non-cash (depreciation) | £437,000 |
| **Resource budget** | **£991,459,000** |
| | |
| Higher education capital | £10,000,000 |
| Further education digital capital | £3,000,000 |
| Medr implementation capital | £500,000 |
| **Capital budget** | **£13,500,000** |
| | |
| **Total resource and capital budget:** | **£1,004,959,000** |
| *Grant in Aid adjustments:* | |
| *Less non-cash (depreciation)* | *£437,000* |
| | |
| **Total Grant-in-Aid (Cash)** | **£1,004,522,000** |